

Rhaglen Grantiau **CARE** Macmillan

Culture • Agency • Respect • Equity

Pecyn Gwybodaeth Ymgeisydd

Tabl Cynnwys

Y broses ymgeisio ac amserlen	2
Sut i wneud cais – cam wrth gam	2
Cipolwg ar yr amserlen	4
Cefndir.....	5
Y byd rydym ni am ei weld	5
Beth yw Rhaglen Grantiau CARE Macmillan?	6
Thema 1: Ymatebolrwydd Diwylliannol Gwell o fewn Gofal Canser	6
Thema 2: Cysondeb ac Arfer Gorau ar gyfer Gwneud Penderfyniadau ar y Cyd mewn Gofal Canser	7
Thema 3: Gofal Canser Cyfeillgar i Ddementia	7
Ein blaenoriaethau ariannu	8
Pwy all wneud cais	8
Beth allwn ni a na allwn ni ei ariannu	9
Yr hyn y gallwn ni ei ariannu	9
Yr hyn na allwn ni ei ariannu	10
Fformat gofynnol atodiadau a chyflwyniad	11
Trosolwg o'r asesiad	12
Gofynion gwerthuso ac adrodd	13
Cynnig cryfhau capasiti	14
Cwestiynau Cyffredin	14
Cymhwysedd a gofynion y sefydliad.....	14
Cyllideb a chyllid	15
Y weithdrefn ymgeisio	16
Templedi.....	18
Canllaw hygyrchedd a chefnogaeth.....	19
Geirfa	19

Y broses ymgeisio ac amserlen

Sut i wneud cais – cam wrth gam

1**CAM 1: Gwirio eich bod chi'n gymwys**

Gwiriwch gan ddefnyddio ein gwiriwr cymhwysedd ar-lein:

<https://forms.office.com/e/27teXFs3c6>

Bydd y cwis cyflym hwn yn dweud wrthyhych chi os yw eich sefydliad yn bodloni'r meini prawf sylfaenol.

2**CAM 2: Darllen y pecyn gwybodaeth hwn ynhgyd â'r canllawiau ymgeisio [cliciwch yma](#)**

Dylech sicrhau eich bod chi'n deall beth rydym ni'n chwilio amdano a phu'n a yw eich syniad chi'n addas. Rhowch sylw arbennig i'r tri thema a'r blaenoriaethau ariannu.

3**CAM 3: Cysylltu os ydych chi angen unrhyw gymorth**

Rydym ni eisiau i bawb â diddordeb allu gwneud cais.

Defnyddiwch ein ffurflen cais am gymorth os ydych chi angen:

- Cymorth i ddeall unrhyw ran o'r cais
- Y ffurflen gais neu'r canllawiau mewn fformat gwahanol (print bras, Hawdd Ei Ddeall, ac ati).
- Gwybodaeth ysgrifenedig neu ganllawiau mewn iaith arall ac eithrio Saesneg

Ffurflen cais am gymorth: <https://forms.office.com/e/712FeP2Skn>

Byddwn yn cydnabod eich cais o fewn 5 diwrnod gwaith ac yn rhoi gwybod i chi beth yw'r camau nesaf.

Ymuno â gweminar: Rydym ni'n rhedeg Gweminarau Gwybodaeth am Grantiau ar y dyddiadau canlynol:

- Dydd Mawrth 2^{il} Rhagfyr 2025 am 11:00am – 12:00pm (gofrestru [yma](#))
- Dydd Iau 11^{eg} Rhagfyr 2025 am 6:00pm – 7:00pm gofrestru [yma](#))
- Dydd Iau 8^{fed} Ionawr 2026 am 3:30pm – 4:30pm (gofrestru [yma](#))

Bydd y rhain yn gyfle i ddysgu mwy am Gronfa CARE Macmillan a grantiau Macmillan eraill sydd ar gael ar hyn o bryd i ymgeiswyr cymunedol.

E-bostiwrch ni Am unrhyw gwestiynau eraill, anfonwch e-bost i CommunityGrants@macmillan.org.uk

4**CAM 4: Llenwi'r ffurflen gais**

⚠ Pwysig – Darllenwch cyn dechrau

Mae'r ffurflen gais yn hir ac yn fanwl (dros 60 o gwestiynau). Er efallai na fydd angen i chi ateb yr holl gwestiynau ac mae uchafswm geiriau i'ch arwain.

Nid ydym yn disgwyl nac yn argymhell i unrhyw un ei chwblhau'n uniongyrchol ar-lein i gyd ar unwaith.

Mae hyn oherwydd nad yw'r ffurflen ar-lein yn arbed eich cynnydd yn awtomatig.

Os byddwch chi'n cau eich porwr neu'n colli eich cysylltiad rhyngwryd, bydd unrhyw waith heb ei gyflwyno yn cael ei golli.

I wneud y broses yn haws ac osgoi colli unrhyw waith, lawrlwythwch fersiwn Word yn gyntaf [[cliciwch yma i lawrlwytho](#)], ei llenwi all-lein a'i harbed wrth i chi fynd yn eich blaen.

Pan fyddwch chi'n barod, gallwch gopïo a gludo eich atebion i'r ffurflen ar-lein:

<https://forms.office.com/e/2FhEnGS9Pe>

Mae'r ffurflen yn cynnwys:

- Am eich sefydliad (llywodraethu, profiad, cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu)
- Trosolwg o'r prosiect (thema/themâu'r prosiect, lleoliad, crynodeb o'r prosiect, hyd)
- Cynnig y prosiect (yr hyn rydych chi'n bwriadu ei wneud, sut mae eich cymuned wedi bod yn rhan o ddatblygu eich syniad, partneriaethau, dull dysgu, risgiau)
- Cyllideb y prosiect a chyllid sefydliadol (costau'r prosiect, ffynonellau cyllid, a chapasiti ariannol y sefydliad)

5

CAM 5: Cyflwyno erbyn y dyddiad cau

Dylech gyflwyno eich cais erbyn **5pm ddydd Gwener 23^{ain} Ionawr 2026**.

Byddwn yn anfon e-bost cadarnhau awtomatig i chi unwaith y byddwn ni wedi derbyn eich cais.

6

CAM 6: Gallem ofyn am eglurhad

Yn ystod yr asesiad, gallwn gysylltu â chi i:

- Sicrhau ein bod ni wedi deall rhywbeth yn eich cais yn iawn
- Gofyn am ragor o wybodaeth am rywbeth rydych chi wedi'i ysgrifennu
- Trafod eich cyllideb neu pwy rydych chi'n bwriadu gweithio â nhw

Cyfnod asesu: 26ain Ionawr i 27ain Chwefror 2026

Mae hon yn ran arferol o'r broses - nid yw'n golygu bod problem gyda'ch cais. Dylech sicrhau y gall rhywun o'ch sefydliad ymateb i unrhyw ymholiadau yn ystod y cyfnod hwn. Os nad yw eich prif gyswllt ar gael, rhwch fanylion cyswllt arall i ni.

7

CAM 7: Gwneud penderfyniadau

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu a'u sgorio yn erbyn y 5 maes allweddol:

- Dylunio Prosiect a Dichonoldeb
- Wedi'i Ddylunio o'r Ymylon
- Arweinyddiaeth a Phartneriaethau Cryf
- Y Gallu i Greu Newid
- Gwerth am Arian

Bydd panel gwneud penderfyniadau sy'n cynnwys pobl â phrofiad byw ac arbenigwyr pwnc yn adolygu pob cais cymwys ac yn gwneud penderfyniadau terfynol.

Bydd y panel hefyd yn ystyried:

- ansawdd a chryfder pob cais unigol
- cael cymysgedd o brosiectau ar draws themâu, daearyddiaeth a dulliau
- cael cydbwysedd o ran maint a mathau o sefydliadau
- y potensial ar gyfer dysgu ac eglurder yr effaith a fwriedir ar lefel system

8

CAM 8: Byddwn yn rhoi gwybod i chi

Bydd yr holl ymgeiswyr yn cael eu hysbysu o'r penderfyniadau yn ystod yr wythnos **sy'n dechrau ar y 9^{fed} o Fawrth 2026**, p'un a ydynt yn llwyddiannus ai peidio.

Cyn y penderfyniadau terfynol, os yw eich cais yn cyrraedd y **rhestr fer**, byddwn yn gofyn am rywfaint o ddogfennau ychwanegol. Gallai'r rhain gynnwys:

- Dogfen llywodraethol (cyfansoddiad)
- Cyfrifon blyneddol diweddaraf
- Polisi diogelu
- Manylion banc

Os ydych chi'n **llwyddiannus**, byddwn yn anfon y canlynol i chi:

- Llythyr cynnig grant ffurfiol
- Cytundeb Grant
- Gwybodaeth am ofynion monitro
- Manylion am y rhaglen cymorth i gyfoedion
- Gwahoddiad i gyfarfod eich cyswllt yn Macmillan

Os ydych chi'n aflwyddiannus, byddwn yn egluro pam a, lle bo'n bosibl, yn argymhell ffynonellau eraill o gyllid neu gymorth.

Gallwch wneud cais eto mewn rowndiau yn y dyfodol ar gyfer cyllid Grantiau Cymunedol Macmillan. Bydd cyfnodau yn y dyfodol yn canolbwyntio ar themâu gwahanol, a fydd yn cael eu llywio o'r cynllun peilot a'r gwaith cyd-ddylunio gyda chymunedau. Byddwn yn cyhoeddi themâu newydd mewn da bryd cyn i'r ceisiadau nesaf agor.

Cipolwg ar yr amserlen

Dyddiad	Beth sy'n digwydd
Dydd Iau 14^{eg} Tachwedd 2025	Rhaglen yn agor
Dydd Mawrth 2 ^{il} Rhagfyr 2025 am 11:00am – 12:00pm Dydd Iau 11 ^{eg} Rhagfyr 2025 am 6:00pm – 7:00pm Dydd Iau 8 ^{fed} Ionawr 2026 am 3:30pm – 4:30pm	Gweminarau Gwybodaeth am Grantiau
Tach 2025 - Ion 2026	Galwadau cymorth cyn-ymgeisio ar gael
Dydd Gwener 23^{ain} Ionawr 2026	Dyddiad Cau ar gyfer ceisiadau (5pm)
26 ^{ain} Ionawr tan 27 ^{ain} Chwefror 2026	Asesiad ac adolygiad y Panel Penderfynu
Wythnos yn dechrau 9^{fed} Mawrth 2026	Cyhoeddi penderfyniadau

Cefndir

Yn Macmillan, rydym ni'n gweithio i wneud gofal cancer yn well i bawb, ni waeth pwy ydyn nhw neu ble maen nhw'n byw. Ein gweledigaeth yw dyfodol tecach, iachach i bawb.

Ond ar hyn o bryd, mae llawer o bobl ledled y DU yn profi gofal cancer annheg ac anghyfartal. Mae hyn yn golygu bod rhai pobl yn cael triniaeth waeth ac yn profi canlyniadau gwaeth.

Gall hyn ddigwydd oherwydd y canlynol:

- pobl yn cael eu trin yn annheg gan systemau oherwydd pwy ydyn nhw – er enghraifft, eu hiliaeth, hunaniaeth rhywedd, rhywioldeb, statws cymdeithasol-economaidd neu anabledd
- pobl sydd â chanser yn ogystal ag anhwylder iechyd hir-dymor arall
- lle mae rhywun yn byw, pryd maen nhw angen cymorth, neu'r math o ganser sydd ganddyn nhw

Dyna pam rydym ni'n gweithio gyda chymunedau i herio'r anghyfiawnder hwn a chreu newid parhaol.

Ni allwn gyflawni newid heb sefydliadau cymunedol, sy'n deall anghenion eu cymunedau. Gan y gallant ddod â'u hasedau, eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dychymyg eu hunain i fynd i'r afael â heriau yn y systemau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae newid yn digwydd pan mae gan bobl y pŵer i weithredu a'u bod nhw'n gallu gweithio gyda'i gilydd. Byddwn yn gweithio i gryfhau dylanwad sefydliadau cymunedol ar draws y system iechyd.

Er 2030, rydym ni am weld rhwydwaith ffyniannus o sefydliadau cymunedol ledled Lloegr, Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, yn meddu ar yr adnoddau ac yn hyderus yn eu galluoedd i greu gofal cancer mwy cynhwysol a chanolog i'r person.

Y byd rydym ni am ei weld

Rydym ni am gael system iechyd heb unrhyw annhegwch na hiliaeth. Dylai pob person â chanser yn y DU, yn enwedig y rhai sy'n fwyaf ymylol ac yn profi'r canlyniadau gwaethaf, allu cael y gofal a'r cymorth personol maen nhw eu hangen.

Mae hyn yn golygu:

- **Mae gofal cancer yn hygyrch ac yn gynhwysol** – gall pobl gyrraedd gwasanaethau'n gorfforol, eu fforddio, a'u deall, waeth beth fo eu gallu, iaith neu gefndir.
- **Mae gofal iechyd yn groesawgar ac yn ymatebol yn ddiwylliannol** – mae gwasanaethau'n rhydd o wahaniaethu ac wedi'u siapio gan ddiwylliant a chymuned. Maen nhw wedi'u cynllunio i fodloni anghenion amrywiol trwy gydol y daith cancer.
- **Mae gan bobl bŵer a dewis** – mae pawb â chanser yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal, ac yn cael eu cefnogi gan wybodaeth glir ac eiriolaeth.
- **Mae rhannu gwneud penderfyniadau'n arferol** - mae gweithwyr gofal iechyd yn aml yn cynnwys pobl mewn opsiynau triniaeth. Mae hyn yn cynnwys mewn ffyrdd sy'n gweithio i gymunedau gwahanol a'u hamgylchiadau.

- **Mae sefydliadau cymunedol yn bartneriaid gwerthfawr** – mae rhwydwaith bywiog o wasanaethau a arweinir gan y gymuned yn gweithio ochr yn ochr â systemau gofal iechyd i gynllunio a darparu gofal sy'n bodloni anghenion pobl lle maen nhw.
- **Mae gofal yn parhau ar draws cyflyrau** – mae pobl sy'n byw gyda chanser a chyflyrau hirdymor eraill yn derbyn cymorth sy'n ganolog i'r person sy'n mynd i'r afael â'u holl anghenion.

Beth yw Rhaglen Grantiau CARE Macmillan?

Mae Rhaglen Grantiau CARE Macmillan yn rhaglen beilot wedi'i dylunio i brofi sut y gall dulliau a arweinir gan y gymuned fynd i'r afael ag annhegwch sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn mewn gofal canser. Rydym ni'n credu mai sefydliadau cymunedol sydd yn deall eu cymunedau orau ac sydd yn y sefyllfa orau i ysgogi newid.

Mae'r rhaglen hon yn gam cyntaf ar ein taith i ail-edrych ar sut mae Macmillan yn ariannu gwaith a arweinir gan y gymuned. Mae'n gyfle i ddysgu i bawb dan sylw, wedi'i ddylunio i'n helpu i brofi dulliau newydd heb pwysau targedau llym. Bydd rhaglenni yn y dyfodol yn adeiladu ar y gwersi hyn i gefnogi cyflwyno cyfleoedd ariannu mwy, a mwy hirdymor.

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar dair her gysylltiedig, a nodwyd drwy ymchwil a sgysiau gyda chymunedau:

Thema 1: Ymatebolrwydd Diwylliannol Gwell o fewn Gofal Canser

Mae gormod o bobl o gefndiroedd ymylol yn profi rhagfarn mewn gofal canser. Mae hyn yn cynnwys pobl o gymunedau amrywiol yn ethnig, pobl LHDTC+, pobl anabl, a'r rhai sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y DU. Gall hyn arwain at ddiagnosis yn hwyrach, llai o opsiynau triniaeth, cefnogaeth waeth a chanlyniadau gwaeth.

Gall gwahaniaethu fod yn fwrriadol ond, mewn llawer o achosion, maen nhw'n cael eu hachosi gan ddiffyg gwybodaeth neu ddealltwriaeth. Mae'n digwydd hefyd oherwydd y gall gwahaniaethu gael ei adeiladu i mewn i ffordd mae systemau gofal iechyd yn gweithio. Gall hyn leihau ymddiriedaeth mewn gweithwyr iechyd proffesiynol a'r system yn gyffredinol.

Mae cymunedau ledled y DU wedi datblygu ffyrdd effeithiol o gefnogi pobl trwy eu profiadau canser. Maen nhw'n gwneud hyn trwy ddefnyddio cryfderau diwylliannol, rhwydweithiau cymorth cydweithredol, a dealltwriaeth ddofn o'r hyn sydd bwysicaf i'w cymunedau. Mae llawer o weithwyr iechyd eisiau darparu gofal sy'n ddiwylliannol ymatebol ond yn aml mae ddiffyg gwybodaeth ac adnoddau i'w wneud yn effeithiol.

Mae ymatebolrwydd diwylliannol yn golygu cydnabod a pharchu gwahaniaethau diwylliannol, a cheisio deall cefndir, profiadau, ac anghenion pob person yn weithredol. Mae hefyd yn cynnwys cymryd rôl weithgar wrth herio anghydraddoldebau o fewn sefydliadau, adeiladu perthnasoedd gyda'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu, a sicrhau bod y gofal a ddarperir yn gynhwysol ac yn ganolog i'r person.

Rydym ni eisiau ariannu prosiectau sy'n helpu i adeiladu'r pontydd hyn, gan rannu arbenigedd cymunedol gyda gweithwyr iechyd proffesiynol i greu gofal sy'n gweithio i bawb. Er y gall hyfforddiant fod yn un ffordd o wneud hyn, mae gennym ni ddiddordeb arbennig mewn dulliau sy'n mynd ymhellach na hyfforddiant i greu newid parhaol mewn sut caiff gofal ei gynllunio a'i ddarparu.

Thema 2: Cysondeb ac Arfer Gorau ar gyfer Gwneud Penderfyniadau ar y Cyd mewn Gofal Cancer

Mae ymchwil yn dangos bod 40% o bobl eisiau mwy o ran yn y penderfyniadau am eu gofal¹. Ond mae gwneud penderfyniadau ar y cyd yn parhau i fod yn anghyson, yn enwedig i bobl o gymunedau wedi'u hymyleiddio.

Mae gwneud penderfyniadau ar y cyd yn golygu bod gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a chleifion yn gweithio gyda'i gilydd fel partneriaid i wneud penderfyniadau am driniaeth a gofal. Mae'n cyfuno arbenigedd proffesiynol gydag anghenion, dewisiadau a gwerthoedd pob person. Gall hyn wella boddhad gyda'r driniaeth a helpu pobl i ymgysylltu'n fwy gweithredol gyda'u gofal.

Dangosodd Arolwg Profiad Cleifion Cancer Cenedlaethol 2021 (CPES) fod cleifion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau dysgu yn gyson yn teimlo'n llai o ran o'u gofal cancer ac yn llai bodlon â'u gofal cancer o'i gymharu â grwpiau eraill.² Mae'r gwahaniaethau hyn mewn profiad yn parhau hyd yn oed ar ôl ystyried oedran, rhyw, neu gefndir economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn golygu nad dim ond oherwydd y ffactorau hynny mae bylchau. Maen nhw'n dangos gwahaniaethau go iawn yn y ffordd mae gofal cancer gynhwysol ac ymatebol yn teimlo i lawer o gymunedau sydd wedi eu hymyleiddio.

Rydym ni'n chwilio am brosiectau sy'n rhoi lleisiau a dewis pobl wrth wraidd gofal cancer. Rydym ni'n awyddus yn benodol am syniadau sy'n hybu newid systemig ac yn croesawu dulliau beiddgar, creadigol.

Thema 3: Gofal Cancer Cyfeillgar i Ddementia

Mae pobl sy'n byw gyda chanser a dementia yn aml yn derbyn llai o driniaeth na phobl eraill³. Gall hyn fod yn rhannol oherwydd tybiaethau am yr hyn y gall pobl ymdopi ag ef. Er bod rhai gwahaniaethau mewn triniaeth yn gallu adlewyrchu dewis personol, mae ymchwil yn awgrymu bod penderfyniadau hefyd yn cael eu dylanwadu gan syniadau am allu gwybyddol person, bregusrwydd, a lefel y cymorth gan ofalwr sydd ar gael. Mae rhai gweithwyr proffesiynol gofal iechyd hefyd yn dweud eu bod nhw'n teimlo ansicrwydd wrth benderfynu sut i gynnwys pobl â chlefyd Alzheimer yn y broses o wneud penderfyniadau am driniaeth.

Gall dementia hefyd ei gwneud yn fwy anodd llywio gofal cancer a gwasanaethau iechyd ehangach. Mae hyn oherwydd nad ydynt yn aml wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion pobl â nam gwybyddol. Er enghraifft, gall deall a chofio gwybodaeth gymhleth am driniaeth fod yn anodd.

Mae heriau cyfathrebu hefyd yn golygu y gall pobl fod angen cymorth ychwanegol i fynegi eu hanghenion. Gall pobl sy'n byw gyda chanser a dementia hefyd wynebu rhwystrau ymarferol. Mae'r rhain yn cynnwys teithio i nifer o apwyntiadau, dod o hyd i'r ffordd o gwmpas lleoliadau ysbyty anghyfarwydd, a monitro neu roi gwybod am sgil-ffeithiau rhwng ymweliadau.

Rydym ni eisiau ariannu dulliau sy'n sicrhau nad oes unrhyw un sy'n byw gyda chanser a chlefyd Alzheimer yn cael ei anwybyddu.

¹Y Comisiwn Ansawdd Gofal, 2025. *Adult inpatient survey 2024*, 9 Medi. Ar gael yn:

<https://www.cqc.org.uk/publications/surveys/adult-inpatient-survey>

² NHS England. Arolwg Profiad Claf Cancer Cenedlaethol 2021. Ar gael yn: <https://www.ncpes.co.uk>

³ Ashley L, Surr C, Kelley R, et al. Gofal cancer i bobl gyda dementia: Trosolwg llenyddol ac argymhellion ar gyfer ymarfer ac ymchwil. *CA Cancer J Clin.* 2023;73(3):320-338. [doi:10.3322/caac.21767](https://doi.org/10.3322/caac.21767)

Ein blaenoriaethau ariannu

Mae'r blaenoriaethau isod yn dangos yr hyn rydym ni'n edrych amdano yn y prosiectau rydym ni'n eu hariannu. Rydym ni eisiau cefnogi gwaith sy'n mynd i'r afael â annhegwch, yn herio systemau ac yn creu newid parhaol.

1. Wedi'i ddylunio o'r ymylon

Rydym ni eisiau i brosiectau gael eu siapio gan y rheiny sy'n wynebu'r rhwystrau a'r eithriadau mwyaf, pobl ar groestorfannau sawl math o anfanteision. Nid yw dylunio o'r ymylon yn ymwneud â chlywed y lleisiau hyn yn unig; mae'n ymwneud â'u rhoi nhw wrth wraidd y broses. Er enghraifft, cyd-ddylunio gofal canser sy'n gyfeillgar i bobl gyda dementia gyda phobl ar groestorfan hil, anabled, hunaniaeth rywedd a thlodi. Drwy gynllunio ar gyfer y rhai sydd ymhellach oddi wrth fantais, rydym ni'n creu systemau a gwasanaethau sy'n gweithio'n well i bawb.

2. Arweinyddiaeth a phartneriaethau cryf

Rydym ni'n chwilio am brosiectau sy'n dangos arweinyddiaeth leol neu genedlaethol sydd wedi'u seilio ar bartneriaethau cryf. Gall y rhain fod yn gymunedau, gwasanaethau iechyd neu sefydliadau eraill Mae'r rhain yn hanfodol ar gyfer creu newid cynaliadwy y tu hwnt i'r grant. Dylai prosiectau gynhyrchu gwersi y gall eraill adeiladu arnynt a'u haddasu i'w hamgylchiadau eu hunain.

3. Y gallu i greu newid

Dylai prosiectau ddangos dealltwriaeth glir o'r system maen nhw'n gweithio ynddi, gyda nodau diffiniedig, cynllun cadarn a'r adnoddau cywir i'w cyflwyno. Mae'n bwysig gwybod pa wasanaethau neu amodau eraill sydd eu hangen ar gyfer llwyddiant a sut mae eich prosiect yn ffitio o'u mewn.

Pwy all wneud cais

Gallwch wneud cais os ydych chi'n sefydliad gwirfoddol, cymunedol, crefyddol neu fenter gymdeithasol (VCFSE) wedi'i leoli yn y DU, gan gynnwys:

- Elusen gofrestredig
- Sefydliad Ymgorfforedig Elusennol (CIO)
- Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC)
- Cwmni Cyfyngedig drwy Warant
- Sefydliad ffydd
- Cymdeithas preswylwyr/rhentwyr a grwpiau cymunedol
- Clwb chwaraeon lleol a Chlwb Hamdden/Cymdeithasol
- Cymdeithas budd cymunedol

Mae angen i'ch sefydliad:

- Fod wedi'i leoli yn y DU (Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon)
- Meddu ar lywodraethu sy'n briodol i'ch maint a'r grant rydych chi'n gwneud cais amdano (o leiaf 3 ymddiriedolwr/cyfarwyddwr nad ydynt yn perthyn a 2 lofnodwr banc nad ydynt yn perthyn)
- Dangos profiad yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd neu weithio fel partner dibynadwy gyda chymunedau sy'n wynebu rhwystrau i ofal canser
- Gallu cyflawni'r prosiect o fewn amserlen y grant (mae grantiau ar gyfer 1 neu 2 flynedd)
- Dangos dulliau wedi'u harwain a'u cyd-ddylunio gan y gymuned

- Dangos sut fydd eich prosiect yn gwneud gwahaniaeth i bobl sy'n byw gyda chanser

Wedi eich ariannu eisoes gan Macmillan?

Gallwch wneud cais o hyd os:

- ✓ Yw eich prosiect newydd yn gwbl ar wahân i'r gwaith sy'n cael ei ariannu gan Macmillan eisoes
- ✓ Nad oes dyblygiad costau
- ✓ Gallwch reoli sawl prosiect ar yr un pryd
- ✓ Rydych chi'n dal i fyny gyda holl ofynion adrodd Macmillan

Pwy na all ymgeisio fel prif ymgeisydd:

- Busnesau masnachol ac unig fasnachwyr
- Ymddiriedolaethau'r GIG, ysbytai neu awdurdodau lleol
- Grwpiau cymorth anffurfiol heb strwythur cyfreithiol (Grwpiau anghorfforedig)
- Elusennau heb eu cofrestru
- Sefydliadau gyda 2+ mlynedd o gyflwyniadau hwyr i'r Comisiwn Elusennau/Tŷ'r Cwmnïau
- Sefydliadau ag ansefydlogrwydd ariannol na chaiff ei reoli, h.y mae eich sefydliad wedi bod â mwy o ddyledion na asedau (atebolrwydd cyfredol net) yn y 2 flynedd ariannol a gwblhawyd ddiwethaf heb gynllun i fynd i'r afael â hyn
- Sefydliadau â thrysoryddion cyflogedig heb gymeradwyaeth briodol
- Cwmnïau buddiant cymunedol sy'n dosbarthu difidendau i randdeiliaid preifat
- Sefydliadau â llywodraethu annigonol neu arferion gwahaniaethol

Nodyn: Gall sefydliadau'r GIG a grwpiau anhysbys fod yn bartneriaid cyflawni ond nid yn brif ymgeiswyr.

Beth allwn ni a na allwn ni ei ariannu

Yr hyn y gallwn ni ei ariannu

Costau staff a phobl:

- Cyflogau ar gyfer staff prosiect (gan gynnwys costau recriwtio)
- Hyfforddwyr, hwyluswyr ac ymgynghorwyr llawrydd
- Ffioedd ar gyfer arbenigwyr trwy brofiad a hwyluswyr cymunedol
- Hyfforddiant a goruchwyliaeth ar gyfer staff prosiect

Costau cyflawni prosiect (enghreifftiau o weithgareddau posibl):

- Dylunio a chyflwyno hyfforddiant
- Rhaglenni mentora o chwith

- Ymchwil gweithredol a phrofi dulliau newydd
- Gweithgareddau codi ymwybyddiaeth neu hyrwyddo sydd â'r nod o ddylanwadu ar newid
- Datblygu partneriaeth gyda'r GIG, gofal cymdeithasol neu sefydliadau eraill
- Gweithdai cyd-ddylunio gyda chymunedau
- Datblygu adnoddau (deunyddiau, offer, fformatau hygyrch)
- Llogi lleoliad, llogi offer, lluniaeth
- Gorbenion prosiect (e.e. yswiriant atebolrwydd cyhoeddus)
- Addasiadau hygyrchedd (dehonglwyr BSL, trafndiaeth, ac ati)

Costau gwerthuso a dysgu:

- Offer asesu effaith a chasglu data
- Cymorth gwerthuso (mewnol neu allanol)
- Ysgrifennu adroddiadau a dogfennau
- Digwyddiadau dysgu cydweithredol a rhwydweithio
- Presenoldeb mewn cynadleddau

Nodyn: Rydym ni'n disgwyl i 3-10% o gyllideb eich prosiect gwmpasu gweithgareddau gwerthuso a dysgu. Gweler '[Gofynion gwerthuso a chyflwyno adroddiadau](#)' am fwy o fanylion.

Costau sefydliadol:

- Hyd at 15% o gyfanswm costau'r prosiect ar gyfer costau gorbenion/craidd (megis rhent, cyfleustodau, amser rheolwyr sy'n cefnogi'r prosiect)

Yr hyn na allwn ei ariannu**Costau na ddylid eu cynnwys mewn cais am grant:**

- Disodli cyllid statudol (costau y dylid eu cwmpasu gan y GIG neu awdurdodau lleol)
- Costau ôl-weithredol (unrhyw beth sydd eisoes wedi'i dalu, gan gynnwys costau paratoi'r cais)
- Costau sefydliadol craidd y **tu hwnt i'r lwfans 15%**
- Taliadau dyledion, benthychiadau, taliadau llog neu adeiladu cronfeydd

Gweithgareddau y tu allan i gwmpas y rhaglen:

- Gweithgareddau cyn-diagnosis (sgrinio, canfod cynnar) – mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar ofal ar ôl diagnosis
- Lobïo gwleidyddol neu weithgaredd gwleidyddiaeth plaid

- Gweithgareddau sy'n hyrwyddo crefydd yn bennaf
- Gwaith nad yw'n elusennol yn gyfreithiol
- Gweithgareddau sy'n cynhyrchu elw preifat
- Noddwr unigol neu aiddosbarthu grantiau i unigolion neu sefydliadau eraill
- Gweithgareddau lle caiff pobl eu heithrio ar sail crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd, neu hil (heblaw os yw'r mater yn benodol i'r grŵp a bod y dull hwn yn cael ei gyfiawnhau)
- Gweithgareddau nad ydynt yn cydymffurfio'n gyfreithiol (er enghraifft, heb y mesurau diogelu priodol, yswiriant neu gamau diogelu data)

Cyfalaf a chostau eraill wedi'u heithrio:

- Adeiladau, ailwampio neu offer mawr
- Prynu cerbydau
- Prynu alcohol
- Teithio neu weithgareddau y tu allan i'r Deyrnas Unedig

Fformat gofynnol atodiadau a chyflwyniad

Dim ond dwy ran sydd i'r cais:

1. Ffurflen gais

Llenwch a chyflwynwch ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Forms:

<https://forms.office.com/e/2FhEnGS9Pe>

2. Cyllideb y prosiect (defnyddiwch ein templed)

Lawrlwythwch y templed cyllideb Excel [yma](#). Dylai hwn ddangos:

- Holl gostau'r prosiect wedi'u nodi yn ôl categori (staff, cyflwyno, gwerthuso, ac ati)
- Incwm (Cais grant Macmillan + unrhyw ffynonellau ariannu eraill)
- Cyfiawnhad cost ar gyfer eitemau sylweddol
- Costau Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 (os yn ymgeisio am gyllid 2 blynedd)
- Anfonwch eich cyllideb wedi'i chwblhau trwy e-bost i:
CommunityGrants@macmillan.org.uk
 - Llinell bwnc: Cyllideb Grant CARE – [Enw Eich Sefydliad]
 - Fformat y Ffeil: Excel (.xls neu .xlsx)
 - Maint y ffeil: 10MB ar y mwyaf
 - Enw'r ffeil: EnwSefydliad_Cyllideb_GrantCARE.xlsx

A dyna ni. Nid oes angen unrhyw ddogfennau eraill ar y cam ymgeisio.

Beth am ddogfennau eraill?

Os bydd eich cais yn cyrraedd y rhestr fer, byddwn yn gofyn i chi ddarparu:

- Dogfen llywodraethol (cyfansoddiad)
- Cyfrifon blyneddol diweddaraf
- Polisi diogelu
- Manylion banc

Nid oes angen i chi anfon y rhain nawr. Byddwn ond yn gofyn amdanynt os ydym ni'n ystyried ariannu eich cais.

Trosolwg o'r asesiad

Rydym ni eisiau sicrhau bod pob cais yn cael ei asesu'n deg ac yn gyson. Mae pob cais yn cael ei adolygu gan ddefnyddio meini prawf clir ac yn derbyn sgôr. Mae penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud gan banel gwneud penderfyniadau sy'n cynnwys pobl gyda phrofiad byw ac arbenigwyr pwnc.

Sut mae ceisiadau yn cael eu sgorio

Mae pob cais cymwys yn cael ei asesu a'i sgorio yn erbyn pum maen prawf allweddol.

Maen Prawf	Pwysau	Beth rydym ni'n edrych amdano
Dylunio Prosiect a Dichonoldeb	30%	Ffocws clir ar o leiaf un thema rhaglen, gyda chynllun wedi'i ystyried yn dda y gellir ei gyflawni o fewn y cyfnod amser. Rhesymeg gadarn yn cysylltu gweithgareddau â chanlyniadau, gyda risgiau a mesurau lliniaru wedi'u nodi'n glir.
Wedi'i Ddylunio o'r Ymylon	20%	Prosiectau wedi'u siapio gan y rhai sy'n profi'r rhwystrau mwyaf, pobl ar groestorfannau sawl math o anfanteision. Profiad byw wedi'i ymgorffori mewn arweinyddiaeth, dyluniad prosiect a chyflawniad. Yn ogystal â thystiolaeth o gyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu gyda chymunedau.
Arweinyddiaeth a Phartneriaethau Cryf	20%	Arddangos arweinyddiaeth leol neu genedlaethol yn seiliedig ar bartneriaethau cryf gyda chymunedau, gwasanaethau iechyd a/neu sefydliadau eraill. Dull clir o ddysgu a gwerthuso y gellir ei rannu gyda eraill.
Y Gallu i Greu Newid	20%	Dealltwriaeth glir o'r system rydych chi'n gweithio ynddi, gyda nodau diffiniedig ar gyfer effaith systemig (nid cefnogi unigolion yn unig). Dangos pa wasanaethau ac amodau eraill sydd eu hangen ar gyfer llwyddiant a sut mae eich prosiect yn ffitio o'u mewn.
Gwerth am Arian	10%	Mae'r costau'n rhesymol, yn gymesur ac wedi'u cyfiawnhau'n eglur. Mae'r gyllideb yn cyd-fynd â'r gweithgareddau arfaethedig. Esboniad clir o gostau gorbenion ac unrhyw gyllid cyfatebol neu gyfraniadau o fath arall.

Os bydd gennym ni nifer fawr o geisiadau cryf, efallai y byddwn ni'n defnyddio gwybodaeth nad yw wedi'i sgorio i helpu i ddewis rhwng ceisiadau. Yr enw ar hyn yw defnyddio **meini prawf cydbwysu**, sy'n broses mae cyllidwyr yn aml yn ei defnyddio i sicrhau bod eu grantiau yn ariannu amrywiaeth o wahanol sefydliadau, yn cyrraedd cymunedau gwahanol, ac yn helpu mewn gwahanol ffyrdd.

Bydd ein prif broses asesu yn sgorio ceisiadau gan ddefnyddio'r fframwaith uchod, ond efallai y byddwn yn addasu ein penderfyniadau terfynol er mwyn:

- Cael cydbwysedd o wahanol themâu grant, ardaloedd o'r DU, math o sefydliad, maint y sefydliad, a'r cymunedau mae'r sefydliad yn eu cefnogi.
- Sicrhau bod sefydliadau sy'n gwasanaethu pobl yn y 20% cymunedau tlotaf yn cael eu cynrychioli

Gall y panel gwneud penderfyniadau:

- Ariannu ceisiadau yn llawn
- Ariannu ceisiadau gydag amodau (e.e, gofyn am gynllun prosiect mwy manwl neu fframwaith gwerthuso)
- Gofyn am eglurhad cyn gwneud penderfyniad terfynol
- Gwrthod ceisiadau gydag adborth

Gofynion gwerthuso ac adrodd

Rydym ni wedi cynllunio ein dull gwerthuso a chynhyrchu adroddiadau i fod yn ddefnyddiol i'r cymunedau rydych chi'n gweithio gyda nhw, ac i gefnogi dysgu ehangach ar draws sefydliadau partner gan gynnwys Macmillan. Rydym ni'n gwerthfawrogi pob ffurf o fewnwelediad i gefnogi ein dysgu, gan gynnwys straeon, data, ac adborth cymunedol. Rydym ni'n awyddus i ddeall cyfraniad eich prosiect i newid a'r hyn rydych chi'n ei ddysgu ar y ffordd.

Straeon effaith

- Byddwch yn derbyn cymorth a chanllawiau i ddarparu **5 i 10 o straeon effaith dienw**, sy'n cael eu rhannu bob blwyddyn gyda'n partner gwerthuso annibynnol. Gofynnir i grantiau dwy flynedd ailadrodd y cylch hwn yn eu hail flwyddyn.
- Byddwn hefyd yn gofyn i chi anfon cynrychiolydd i ymuno â sesiwn ar-lein wedi'i hwyluso gyda derbynwyr grantiau eraill o dan yr un thema, unwaith y flwyddyn i adolygu straeon effaith a rhannu dysgu. Gweler yr adran "[Cynnig cryfhau capasiti](#)" am fanylion pellach.

Eich gwerthusiad eich hun

- Gofynnir i chi gynnal **gwerthusiad ar gwestiwn dysgu o'ch dewis chi**, gan ddefnyddio dulliau sy'n gweithio i chi a'ch cymuned.

- Rydym ni'n argymhell i chi gyllidebu **3-10% o'ch grant** i gefnogi'r dysgu hwn, a allai gynnwys pethau fel cymorth gwerthuso allanol, amser staff, treuliau cyfranogwyr, neu offer. Mae'r gyllideb gwerthuso yno i'ch helpu i ddysgu a dangos effaith mewn ffyrdd sydd o fudd i'ch sefydliad a'ch cymuned.
- Rydym ni'n gofyn i bob un sy'n **derbyn grant rannu unrhyw allbynnau terfynol neu adroddiadau gyda ni**, fel y gallwn ni eu rhannu gyda derbynwyr grant eraill sy'n gweithio ar yr un thema i ddysgu oddi wrth waith y naill a'r llall.

Diweddariadau rheolaidd

- Cyflwyno adroddiadau ariannol cryno ac adroddiadau chynnydd (templod wedi'i ddarparu) yng nghanol y cyfnod ar gyfer grantiau 1 flwyddyn, neu bob 6 mis ar gyfer grantiau 2 flynedd i sicrhau monitro cyson drwy gydol cyfnod y grant, disgwylir derbyn y rhain o fewn un mis o'r dyddiad adrodd.

Adroddiad diwedd y grant

- Adroddiad terfynol yn cwmpasu cyflawniadau, dysgu, a'r camau nesaf

Dewisol

- Efallai y bydd ein partner dysgu yn eich gwahodd i rannu eich myfyrdodau ar eich profiad o weithio gyda Cymorth Canser Macmillan, i'n helpu ni i wella fel cyllidwyr. Mae hyn yn weithgaredd gwirfoddol.

Beth rydym ni'n ei ddarparu

- Templedi a chanllawiau ar gyfer pob adroddiad
- Cymorth gwerthuso a chyfleoedd dysgu gan gyfoedion
- Hyblygrwydd os ydych chi'n wynebu heriau wrth fodloni amserlenni

Cynnig cryfhau capasiti

Rydym ni'n cydnabod bod cyflwyno prosiectau gwych yn gofyn am fwy na chyllid yn unig. Bydd pob enillydd grant CARE yn rhan o **rwydwaith dysgu gan gyfoedion** lle gallwch gysylltu â derbynwyr grant eraill, rhannu'r hyn sy'n gweithio (a'r hyn nad yw'n gweithio), a dysgu o brofiadau'r naill a'r llall.

Byddwn yn dod â chi ynghyd **o leiaf ddwywaith** yn ystod cyfnod y grant i archwilio themâu allweddol, mynd i'r afael â heriau cyffredin, a chreu perthnasoedd sy'n para y tu hwnt i'r cyfnod ariannu.

Bydd o leiaf un o'r sesiynau hyn yn **adolygiad seiliedig ar thema, wedi'i hwyluso o straeon effaith dienw**. Byddwch yn cael eich gwahodd i anfon cynrychiolydd unwaith y flwyddyn i ymuno â derbynwyr grant eraill sy'n gweithio ar yr un thema i drafod dysgu, cymharu ymarfer, a myfyrio ar effaith. Mae'r sesiwn hon wedi'i chynllunio i gryfhau ymarfer er mwyn i'r bobl rydych chi'n eu cefnogi elwa arni.

Cwestiynau Cyffredin

Cymhwysedd a gofynion y sefydliad

Q1. Rydym ni'n sefydliad bach – allwn ni dal wneud cais?

Gallwch Rydym ni'n croesawu ceisiadau gan sefydliadau o bob maint, cyn belled â'ch bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Y peth pwysicaf yw eich cysylltiad â'r gymuned, eich syniad, a'ch gallu i gyflawni'r prosiect.

Q2. Ar hyn o bryd dydyn ni ddim yn gweithio ar ganser – allwn ni wneud cais?

Does dim angen i chi fod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar ganser, ond mae angen i chi ddangos profiad perthnasol – er enghraifft, gweithio gyda chymunedau wedi'u hymyleiddio ar degwch iechyd, rhedeg gwasanaethau dementia, neu wella ymatebolrwydd diwylliannol ymysg gweithwyr proffesiynol gofal iechyd. Y peth sy'n bwysig yw eich gallu i fynd i'r afael â rhwystrau i ofal cancer.

Q3. A allwn ni wneud cais os ydym ni eisoes yn cael ein hariannu gan Macmillan?

Gallwch, cyhyd â bod y prosiect newydd yn gwbl ar wahân i'r gwaith sy'n cael ei ariannu gan Macmillan ar hyn o bryd, nad oes ailadrodd costau, gallwch reoli sawl prosiect, a'ch bod chi'n dal i fyny â gofynion adrodd.

Q4. Mae ein sefydliad wedi'i leoli y tu allan i'r DU ond yn gweithio yn y DU – ydym ni'n gymwys?

Na. Rhaid i'r prif ymgeisydd fod yn sefydliadau sydd wedi eu lleoli yn y DU. Fodd bynnag, os ydych chi'n gweithio mewn partneriaeth â phrif sefydliad wedi'i leoli yn y DU, gallech fod yn bartner cyflenwi.

Q5. Rydym ni'n sefydliad y GIG – allwn ni wneud cais?

Ni all ymddiriedolaethau ac ysbytai'r GIG wneud cais fel prif ymgeiswyr. Fodd bynnag, gallwch chi fod yn bartner dosbarthu mewn prosiect a arweinir gan sefydliad cymunedol. Rydym ni'n annog partneriaethau cymunedol y GIG yn weithredol.

Q6. Beth yn union mae "llywodraethu priodol" yn ei olygu ar gyfer sefydliadau o feintiau gwahanol?

Rydych chi angen y canlynol, o leiaf:

- 3 ymddiriedolwr/cyfarwyddwr nad ydynt yn perthyn
- 2 llofnodwr banc nad ydynt yn perthyn
- Polisi a gweithdrefnau diogelu
- Rheolaethau ariannol sylfaenol, megis:
 - Dau lofnodwr ar gyfer taliadau dros swm penodol
 - Cysoni banc rheolaidd
 - Derbynebaw a chofnodion wedi'u cadw ar gyfer pob incwm a gwariant

Cyllideb a chyllid

Q7. Beth fydd yn cyfrif fel "costau craidd" yn y lwfans 15%?

Mae costau craidd yn orbenion sydd o fudd i'ch holl sefydliad, nid dim ond y prosiect hwn. Enghreifftiau:

- **Gallu cael ei gynnwys yn y 15%:** rhent, cyfleustodau, yswiriant, amser uwch reolwyr, cefnogaeth AD/cyllid, systemau TG ac unrhyw gostau trwyddedu meddalwedd neu danysgrifiadau sy'n cefnogi gweithrediadau cyffredinol eich sefydliad
- **Ddim yn cael ei gynnwys yn y 15%:** cyflogau staff y prosiect, offer penodol i'r prosiect, costau gwerthuso

(Mae'r rhain yn "gostau uniongyrchol" ac dylent fod ym mhrif gyllideb ei prosiect)

Q8. A allwn ni gynnwys arian wrth gefn yn y gyllideb?

Gallwch, mae cynnwys cronfa wrth gefn gymedrol ar gyfer costau annisgwyl yn ddull synhwylol, cyn belled â'ch bod yn egluro'n glir ar gyfer beth mae hwn a sut y bydd yn cael ei ddefnyddio yn Nhempeld y Gyllideb. Ar gyfer prosiectau sy'n para dros 2 flynedd, rydym ni hefyd yn eich annog i ystyried chwyddiant.

Q9. A allwn ni dalu ni ein hunain i ddatblygu'r cais?

Dydym ni ddim yn gallu cwmpasu costau paratoi cais gan mai dim ond gweithgareddau ymchwil a all gael eu hariannu gan grantiau. Fodd bynnag, mae gennym gefnogaeth ar gael os ydych chi angen cymorth i gwblhau'r ffurflen:

Defnyddiwch ein [ffurflen gais am gymorth](#) i wneud y canlynol:

- Gofyn am y ffurflen mewn fformat gwahanol (e.e. print bras, Hawdd ei Ddeall)
- Trefnu cyfieithu'r wybodaeth neu'r canllawiau
- Archeb galwad 30 munud i gael help i ddeall unrhyw ran o'r cais

Am unrhyw gwestiynau eraill, anfonwch e-bost i CommunityGrants@macmillan.org.uk

Q10. Beth os bydd cost ein prosiect yn fwy na £150,000?

Gallwch wneud cais am hyd at £150,000 gan Macmillan a dangos ffynonellau ariannu eraill yn eich cyllideb.

Fodd bynnag, os yw eich prosiect yn dibynnu ar gyllid ychwanegol nad yw wedi'i gadarnhau eto, eglurwch eich cynllun wrth gefn wrth ateb cwestiwn y cais: **“Pa risgiau ydych chi'n eu rhagweld wrth gyflwyno'r prosiect hwn a sut ydych chi'n eu lliniaru?”** Dywedwch wrthym beth fyddwch chi'n ei wneud os na fyddwch yn derbyn y cyllid hwn – er enghraifft, a fyddwch chi'n lleihau gweithgareddau penodol, camu'r prosiect yn wahanol, neu ddod o hyd i adnoddau amgen.

Q11. A allwn ni symud arian rhwng llinellau cyllideb unwaith y bydd wedi cael ei ariannu?

Mae newidiadau bach (llai na 10% o unrhyw gategori cyllideb) yn iawn – ond dywedwch wrthym yn eich adroddiad cynnydd. Mae angen cymeradwyaeth gan eich Cyswllt Macmillan ar gyfer newidiadau mwy cyn i chi eu gwneud. Rydym ni fel arfer yn hyblyg os oes rheswm da.

Y weithdrefn ymgeisio

Q12. A allwn ni wneud cais am fwy nag un prosiect?

Gallwch, gallwch gyflwyno sawl cais ar gyfer prosiectau gwahanol. Bydd pob un yn cael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun. Fodd bynnag, meddyliwch yn ofalus am eich gallu i gyflawni os caiff y ddau eu hariannu.

Q13. A allwn ni wneud cais o dan fwy nag un thema?

Gallwch, mae llawer o faterion yn gorgyffwrdd. Er enghraifft, mae prosiect ar wneud penderfyniadau ar y cyd ar gyfer pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn ymdrin ag ymatebolrwydd diwyllianol a gwneud penderfyniadau ar y cyd. Sylwch na fydd mynd i'r afael â mwy nag un thema yn gwneud eich cais yn gryfach nag un sy'n canolbwyntio ar un thema. Yr hyn sy'n bwysig yw ansawdd ac eglurdeb eich dull, nid nifer y themâu rydych chi'n eu cwmpasu. Byddwch yn glir o ran sut byddwch chi'n rhoi sylw i bob thema.

Q14. Pa mor hir ddylai ein cais fod?

Mae gan y ffurflen gyfyngiadau geiriau ar gyfer pob cwestiwn. Nid oes angen i chi ddefnyddio pob gair – mae atebion clir a chryno yn well na rhai hir.

Q15. A allwn ni gyflwyno'r ffurflen gais yn Gymraeg, Gaeleg neu iaith arall?

Rhaid cyflwyno ceisiadau yn Saesneg.

Fodd bynnag, rydym ni wedi cyfieithu'r Pecyn Gwybodaeth hwn i'r Gymraeg ac fe allwn ni hefyd ei gyfieithu i ieithoedd cymunedol eraill ar gais.

Sut i gael cymorth:

Cysylltwch â ni o leiaf **3 wythnos** cyn y dyddiad cau i drefnu cymorth iaith:

- Llenwch ein ffurflen cais am gymorth: <https://forms.office.com/e/712FeP2Skn>
- Neu e-bostio: CommunityGrants@macmillan.org.uk

Sylwer: Os yw eich cais yn llwyddiannus, bydd digwyddiadau adrodd a dysgu hefyd yn cael eu cynnal yn Saesneg (gyda chymorth cyfieithu lle bo hynny'n bosibl).

Q16. Beth os byddwn ni'n methu'r dyddiad cau?

Er mwyn bod yn deg i'r holl ymgeiswyr, gallwn ond ystyried ceisiadau sydd wedi'u derbyn erbyn y dyddiad cau.

Q17. Sut ydym ni'n gwybod os cafodd ein cais ei dderbyn?

Byddwch yn derbyn cadarnhad e-bost awtomatig pan fyddwch yn cyflwyno eich cais. Os na fyddwch chi'n derbyn hyn o fewn 24 awr, cysylltwch â CommunityGrants@macmillan.org.uk i wirio.

Q18. Pa gefnogaeth sydd ar gael i'n helpu ni i wneud cais?**Cyn i chi ddechrau:**

Gwiriwr cymhwysedd – Cwis ar-lein cyflym i wirio a yw eich sefydliad a'ch prosiect yn bodloni'r meini prawf: <https://forms.office.com/e/27teXFs3c6>

Gwefannau gwybodaeth am grantiau – Ymunwch â ni ar-lein i ddysgu am Grant CARE a grantiau eraill Macmillan. Gallwch ofyn cwestiynau a chlywed gan y tîm.

Dyddiadau:

- Dydd Mawrth 2^{ed} Rhagfyr 2025 am 11:00am – 12:00pm (gofrestru [yma](#))
- Dydd Iau 11^{ed} Rhagfyr 2025 am 6:00pm – 7:00pm gofrestru [yma](#))
- Dydd Iau 8^{fed} Ionawr 2026 am 3:30pm – 4:30pm (gofrestru [yma](#))

Tra rydych chi'n gwneud cais:

Canllaw gwneud cais – Dogfen ganllaw manwl sy'n eich tywys trwy'r broses cam wrth gam.
[Cliciwch yma i weld y canllawiau](#)

Templed cyllideb – templed Excel gyda nodiadau canllaw i'ch helpu i gynllunio a chyflwyno eich costau. [Cliciwch yma i lawrlwytho'r templed](#)

Angen cymorth ychwanegol?

Llenwch ein [ffurflen cais am gymorth](#) er mwyn:

- Gofyn am y ffurflen neu'r canllawiau mewn fformat gwahanol (e.e. print bras, Hawdd ei Ddeall)
- Trefnu cyfieithu gwybodaeth neu ganllawiau
- Trefnu galwad 30 munud i gael cymorth i ddeall unrhyw ran o'r cais
- Cael cymorth technegol wrth gyflwyno'r ffurflen ar-lein

Neu e-bostiwch ni: CommunityGrants@macmillan.org.uk

Oriau swyddfa: Dydd Llun i ddydd Gwener, 9am tan 4:30pm

Cyflawni prosiectau a phartneriaethau

Q19. Ydym ni angen partneriaethau GIG yn eu lle cyn i ni wneud cais?

Na. Fodd bynnag, os yw partneriaethau'n hanfodol i'ch prosiect, dylech ddangos eich bod wedi cysylltu a bod diddordeb. Mae llythyr o gymorth gan bartneriaid posibl yn cryfhau ceisiadau.

Q20. Ydym ni angen cytundeb rhannu data gyda'r GIG neu bartneriaid cyflwyno eraill?

Mae'n dibynnu ar eich prosiect. Os byddwch chi'n rhannu data gyda'r GIG neu sefydliadau partner cyflenwi eraill, efallai y byddwch angen cytundeb rhannu data ffurfiol. Mae'n syniad da ystyried hyn wrth gynllunio eich prosiect ac egluro yn eich cais sut byddech chi'n rheoli data yn ddiogel. Os bydd eich prosiect yn cael ei ariannu, rydym ni'n agored i archwilio ffyrdd y gallwn ni eich cynorthwyo i sefydlu'r cytundebau hyn.

Q21. A ellir cyflwyno ein prosiect yn genedlaethol neu a oes angen iddo fod yn lleol?

Mae'r ddau yn iawn. Rydym ni eisiau cymysgedd o brosiectau lleol sy'n mynd yn ddwfn i gymuned benodol a phrosiectau cenedlaethol sy'n cyrraedd mwy o bobl neu'n dylanwadu ar bolisi. Y peth sy'n bwysig yw bod eich graddfa yn cyd-fynd â'ch gallu a'ch adnoddau.

Q22. Beth os bydd ein partneriaid prosiect yn tynnu'n ôl ar ôl i ni gael cyllid?

Cysylltwch â'ch Cyswllt Macmillan cyn gynted â phosibl. Byddwn eisiau deall y sefyllfa a chlywed eich barn ar sut i symud ymlaen, boed hynny trwy addasu'r prosiect, dod o hyd i bartneriaid amgen, neu ateb arall. Dyna pam rydym ni'n gofyn am risgiau yn y cais – mae dangos eich bod wedi meddwl am gynllun B yn ddefnyddiol.

Q23. A all y prosiect gynnwys gwaith mewn ysbytai neu fferyllfeydd meddygon teulu?

Gall, os yw'r darparwr gofal iechyd yn cytuno. Byddwch angen eu caniatâd ac yswiriant priodol. Mae gennym ni ddiddordeb mewn prosiectau a gyflwynir yn y lleoliadau sy'n gweithio orau i'r cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu – boed hynny'n adeiladau gofal iechyd, mannau cymunedol, neu'r ddau.

Templedi

Templed cyllideb [[Cliciwch yma i lawrlwytho'r templed](#)]

1. Lawrlwythwch y templed cyllideb (Excel)
2. Byddwch yn benodol: peidiwch ag ysgrifennu "Costau staff £80,000" – dangoswch faint o staff, pa rolau, a'r amser bras maen nhw'n ei ymrwymo.
3. Dylech gyfiawnhau costau sylweddol ar y daflen waith "naratif cyllideb"
4. Dylech gynnwys pob cost hyd yn oed os nad yw'r rhain i gyd wedi'u cynhyrchu gan y grant hwn
5. Dangoswch Flwyddyn 1 a Blwyddyn 2 ar wahân os fyddwch chi'n gwneud cais am gyllid 2 flynedd
6. Os oes gennych chi gyllid cyfatebol neu gyfraniadau o fath arall, dangoswch nhw'n glir
7. Yn allweddol, dylai'r gyllideb fod yn gytbwys

Canllaw hygyrchedd a chefnogaeth

Rydym ni am i bawb a fyddai'n gallu elwa o'r cyllid hwn allu gwneud cais, waeth sut rydych chi'n cyfathrebu neu'n cael mynediad at wybodaeth. Rydym ni'n gwybod bod prosesau ymgeisio traddodiadol yn gallu creu rhwystrau, felly rydyn ni am gynnig cymorth hyblyg ac ymarferol.

Gallwn helpu gyda:

- Fformatau amgen (print bras, Hawdd Ei Ddeall, ac ati)
- Cyfieithu gwybodaeth ysgrifenedig neu ddeunyddiau canllaw i'ch iaith o ddewis
- Siarad trwy eich cais (e.e. eich cynnig prosiect neu dempled cyllideb)
- Unrhyw gwestiynau am y broses gais ei hun

Cysylltwch â ni:

Llenwch ein ffurflen cais am gymorth: <https://forms.office.com/e/712FeP2Skn>
neu anfonwch e-bost i CommunityGrants@macmillan.org.uk

Byddwn yn gweithio gyda chi i sicrhau bod gwneud cais mor syml â phosib.

Mae pob cais hygyrchedd yn **gyfrinachol** ac ni fyddant yn effeithio ar eich asesiad cais.

Geirfa

Canllaw A-Z i eiriau a ymadroddion a ddefnyddir yn aml mewn ceisiadau ariannu.

Ymchwil weithredol

Ffordd o ddysgu trwy wneud. Rydych chi'n rhoi cynnig ar rywbeth, gweld beth fydd yn digwydd, dysgu ohono, ac addasu eich dulliau. Mae'n arbennig o ddefnyddiol ar gyfer profi syniadau newydd pan nad ydych chi'n siŵr eto beth fydd yn gweithio orau.

Dull sy'n seiliedig ar asedau

Cychwyn gyda'r hyn sydd gan gymunedau eisoes (sgiliau, gwybodaeth, cysylltiadau, adnoddau) yn

hytrach na chanolbwyntio ar broblemau neu anghenion yn unig. Mae'n cydnabod nad yw cymunedau ond yn dderbynyddion gwasanaethau – mae ganddynt arbenigedd a asedau hefyd.

Llinell Sylfaen

Lle mae pethau yn sefyll cyn i'ch prosiect ddechrau. Os ydych chi eisiau dangos eich bod wedi gwella rhywbeth, mae angen i chi wybod beth yw'r man cychwyn. Er enghraifft: "Ar y llinell sylfaen, dim ond 20% o'r staff oedd yn teimlo'n hyderus wrth gefnogi pobl â dementia."

Buddiolwyr

Pobl sy'n elwa ar y prosiect. Mae **buddiolwyr uniongyrchol** yn bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw'n uniongyrchol (e.e., staff gofal iechyd rydych chi'n eu hyfforddi, cleifion rydych chi'n eu cefnogi). Mae **buddiolwyr anuniongyrchol** yn bobl sy'n elwa oherwydd newidiadau rydych chi'n eu creu (e.e., cleifion sy'n derbyn gofal gwell oherwydd bod y staff wedi'u hyfforddi'n well).

Costau cyfalaf / Gwariant cyfalaf

Arian sy'n cael ei wario ar bethau ffisegol sy'n para am amser hir, fel adeiladau, offer pwysig, neu gerbydau. Nid yw'r mwyafrif o raglenni grant yn ariannu costau cyfalaf oherwydd eu bod am i'r arian fynd tuag at weithgareddau a phobl yn lle hynny. Nid yw'r rhaglen hon yn ariannu costau cyfalaf.

Cryfhau capasiti

Cefnogaeth sy'n helpu sefydliadau i ddod yn gryfach – er enghraifft, hyfforddi staff, gwella llywodraethu, sgiliau gwerthuso gwell, cynllunio ariannol. Mae'n ymwneud â datblygu eich gallu i wneud eich gwaith yn effeithiol ac yn gynaliadwy. (Nodyn: Mae rhai cyllidwyd yn galw hyn yn "adeiladu gallu" neu "adeiladu capasiti" ond mae Macmillan yn defnyddio "Cryfhau capasiti".

Dibenion elusenol

Gweithgareddau sy'n gymwys fel gweithgareddau elusenol o dan gyfraith y DU. Mae yna 13 math gan gynnwys: atal neu leddfu tlodi, datblygu addysg, datblygu iechyd, datblygu dinasyddiaeth neu ddatblygiad cymunedol. Mae'n rhaid i'ch gwaith gyd-fynd ag un o'r rhain a bod o fudd i'r cyhoedd. Gweler: www.gov.uk/government/publications/charitable-purposes

Cyd-ddylunio / Cyd-gynhyrchu

Gweithio gyda chymunedau, nid *drostyn* nhw. Mae pobl â phrofiad byw yn bartneriaid cyfartal wrth ddylunio, cyflawni ac asesu eich prosiect – nid dim ond yn rhan o'r ymgynghori. Mae pŵer yn cael ei rannu, dim yn cael ei ddal gan weithwyr proffesiynol yn unig.

Dan arweiniad y gymuned

Prosiectau lle mae aelodau'r gymuned a phobl sydd â phrofiad byw yn meddu ar bŵer gwirioneddol a gwneud penderfyniadau, nid rhoi mewnbwn yn unig. Gall arweinyddiaeth ddod o sefydliadau cymunedol neu gael ei hintegreiddio i sut mae sefydliadau prif ffrwd yn gweithio.

Costau craidd / Cyllid craidd

Arian ar gyfer costau rhedeg cyffredinol eich sefydliad (rhent, cyflogau staff canolog, yswiriant, llywodraethu) yn hytrach na penodol i'r prosiect. Mae **cronfeydd anghyfyngedig** yn derm arall ar gyfer hyn. Mae'r rhan fwyaf o roddion yn "gyfyngedig" (ar gyfer prosiect penodol yn unig) ond efallai y bydd yn caniatáu % fach ar gyfer costau craidd. Mae'r rhaglen hon yn caniatáu hyd at 15%.

Ymatebolrwydd diwylliannol

Hefyd yn cael ei alw yn: Gymhwysedd diwylliannol, Sensitifrwydd diwylliannol, Gostyngedd diwylliannol, Diogelwch diwylliannol, Deallusrwydd diwylliannol

Mae ymatebolrwydd diwylliannol yn golygu cydnabod a pharchu gwahaniaethau diwylliannol, a cheisio deall cefndir, profiadau, ac anghenion pob person yn weithredol. Mae'n ymwneud â gwrandao'n ofalus, bod yn agored i ddysgu, ac osgoi geiriau neu weithredoedd a allai achosi niwed. Mae hefyd yn golygu bod yn hyblyg, addasu sut rydych chi'n siarad, gweithredu, neu wneud penderfyniadau fel bod pawb yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu, ac yn cael eu cynnwys.

Yn fyr, mae'n ymwneud â thrin pobl yn deg ac ymgysylltu â hwy fel unigolion, gan werthfawrogi eu safbwyntiau unigryw, eu profiadau, a'r cymunedau maen nhw'n dod ohonynt.

Cyfeillgar i ddementia

Wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion pobl sy'n byw gyda dementia. Er enghraifft: arwyddion clir, trefnau cyfarwydd, mannau tawel, amser ychwanegol ar gyfer apwyntiadau, gwybodaeth mewn fformatau syml, hyfforddiant i staff ar ddulliau cyfathrebu.

Cronfeydd dynodedig

Arian rydych chi wedi ei neilltuo ar gyfer pwrpas penodol (ddim yr un peth â chronfeydd cyfyngedig sydd ag amodau allanol). Er enghraifft, efallai y bydd eich bwrdd yn dynodi arian ar gyfer trwsio adeiladau yn y dyfodol.

Costau uniongyrchol

Costau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â rhedeg eich prosiect – cyflogau staff, offer, gweithgareddau, lleoliadau. Nid yw'r rhain yn "dreuliau cyffredinol" ac nid ydynt yn cyfrif tuag at eich lwfans cost craidd o 15%. Rhowch y rheiny ym mhrif gyllideb y prosiect yn lle hynny.

Diwydrwydd dyladwy

Gwiriadau sy'n cael eu gwneud gan gyllidwr i sicrhau bod sefydliad yn gyfreithlon, wedi'i lywodraethu'n dda, ac yn ariannol sefydlog cyn rhoi arian iddynt. Efallai y gofynnir i chi am: gyfrifon, dogfen llywodraethu, polisi diogelu, manylion banc, cofrestriad Y Comisiwn Elusennau.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Cyfraith y DU sy'n amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu yn seiliedig ar: oedran, anabledd, ailgyfeirio rhyw, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol. Gelwir y rhain yn "nodweddion gwarchodedig." Rhaid i'ch sefydliad gymryd camau i gydymffurfio â'r gyfraith hon.

Gwerthuso

Darganfod a wnaeth eich prosiect wahaniaeth a sut. Mae **gwerthusiad ffurfiannol** yn eich helpu chi i wella wrth i chi fynd ymlaen. Mae **gwerthusiad crynodedol** yn mesur yr effaith olaf. Mae gwerthusiad da yn cynnwys: canlyniadau clir, ffyrdd i'w mesur, casglu tystiolaeth (rhifau a straeon), myfyrio, a dysgu.

Adennill cost llawn

Pan fydd ariannwr yn talu costau cyfan prosiect, gan gynnwys costau gorbenion y sefydliad (rheoli, adeiladau, swyddogaethau cymorth), nid dim ond costau cyflwyno uniongyrchol. Mae'r rhaglen hon yn cynnig adfer cost rhannol (hyd at 15% ar gyfer costau craidd)

Llywodraethu

Sut mae eich sefydliad yn cael ei redeg a'i oruchwylio. Mae hyn yn cynnwys: eich bwrdd ymddiriedolwyr/cyfarwyddwyr, polisiâu a gweithdrefnau, prosesau gwneud penderfyniadau, rheolaethau ariannol, rheoli risg, sicrhau eich bod yn bodloni dyletswyddau cyfreithiol. Mae llywodraethu da yn amddiffyn eich sefydliad a'r bobl rydych chi'n eu gwasanaethu.

Cytundeb grant

Y contract cyfreithiol rhyngoch chi a'r cyllidwr os ydych chi'n cael grant. Mae'n nodi: faint o arian fyddwch chi'n ei dderbyn, beth fyddwch chi'n ei wneud gydag ef, pryd mae angen i chi adrodd, beth sy'n digwydd os bydd pethau'n newid. Darllenwch hwn yn ofalus cyn arwyddo.

Annhegwch iechyd / Anghydraddoldebau iechyd

Gwahaniaethau annheg y gellir eu hosgoi mewn canlyniadau iechyd rhyngwladol rhwng grwpiau o bobl. Er enghraifft, mae gan bobl o ardaloedd difreintiedig gyfraddau goroesi canser gwaeth nag sydd gan bobl o ardaloedd mwy cefnog. Mae **tegwch** yn golygu bod yn deg – rhoi beth mae pobl ei angen i gael canlyniadau cyfartal, nid trin pawb yn union yr un fath.

Effaith

Y gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud dros yr hirdymor – y newid parhaol sy'n digwydd oherwydd eich gwaith. (Gwahanol i allbynnau neu weithgareddau.)

Cyfraniadau o fath arall

Cefnogaeth rydych chi'n ei gael nad yw'n arian – er enghraifft, llogi lleoliad am ddim, amser gwirfoddolwyr, offer yn cael ei roi fel rhodd, cyngor gweithwyr proffesiynol pro-bono. Mae rhai cyllidwyr yn ystyried hyn fel "cyllid cyfatebol."

Profiad byw

Profiad personol uniongyrchol o broblem neu sefyllfa. Yn y rhaglen hon, mae hyn yn cynnwys pobl sydd wedi byw gyda chanser, dementia, gwahaniaethu, neu rwystrau i ofal iechyd, yn ogystal ag aelodau o'r teulu a gofalcwyr sydd wedi dod yn arbenigwyr trwy eu profiad o ofalu.

Mae pobl sydd â phrofiad byw yn arbenigwyr ar yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio – dylai eu gwybodaeth lywio prosiectau.

Cymunedau wedi'u hymyleiddio

Grwpiau o bobl sy'n wynebu rhwystrau systemig sy'n cyfyngu ar eu mynediad at adnoddau, cyfleoedd, a gwneud penderfyniadau. Mae'r cymunedau hyn yn aml yn profi ffurfiau sy'n gor-gyffwrdd o wahaniaethu ac anfantais. Mewn cyd-destunau iechyd, gall hyn gynnwys cymunedau amrywiol yn ôl hil, pobl LHDTG+, pobl anabl, pobl sy'n profi tlodi, a phobl gyda sawl cyflwr hirdymor.

Arian cyfatebol

Arian o ffynonellau eraill sy'n ychwanegu at rodd cyllidwr. Er enghraifft, os bydd Macmillan yn rhoi £80,000 i chi ac mae cyllidwr arall yn rhoi £40,000 ar gyfer yr un prosiect, mae'r £40,000 yn "arian cyfatebol". Nid yw cyfateb yn ofynnol ar gyfer y rhaglen hon ond gall gryfhau ceisiadau.

Monitro

Gwirio a chofnodi'n rheolaidd beth mae eich prosiect yn ei wneud a sut mae'n mynd. Ysgafnach na gwerthusiad – mwy am olrhain cynnydd a sylwi ar broblemau'n gynnar. Fel arfer mae cyllidwyr yn gofyn am adroddiadau monitro bob 6-12 mis.

Canlyniadau

Newidiadau sy'n digwydd i bobl, cymunedau neu systemau oherwydd eich gwaith. Er enghraifft: "Mae staff gofali iechyd yn teimlo'n fwy hyderus yn cefnogi pobl gyda dementia" neu "Mae cleifion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn dweud eu bod nhw'n teimlo'n fwy o ran mewn gwneud penderfyniadau." Mae canlyniadau yn ymwneud â newid, nid yr hyn y gwnaethoch chi ei gyflwyno'n unig.

Allbynnau

Yr hyn rydych chi'n ei gyflwyno neu'n ei gynhyrchu'n uniongyrchol. Er enghraifft: "Fe wnaethom ni

hyfforddi 50 o nyrsys" neu "Fe wnaethom greu pecyn cymorth." Mae allbynnau yn bwysig ond nid ydynt yr un peth â chanlyniadau (sy'n ymwneud â'r gwahaniaeth mae'r allbynnau hynny yn ei wneud).

Costau gorbenion

Gweler "Costau craidd."

Partneriaeth / Gweithio mewn partneriaeth

Gweithio gyda sefydliadau eraill tuag at nodau cyffredin. Mae partneriaeth wirioneddol yn golygu: rhannu pŵer a gwneud penderfyniadau, budd i'r ddwy ochr, rolau clir, a chyfathrebu parhaus.

Cynllun peilot / Prosiect peilot

Profi rhywbeth newydd ar raddfa fach cyn ei gyflwyno'n fwy eang Mae cynlluniau peilot yn ymwneud â dysgu beth sy'n gweithio. Disgwylir iddynt fod yn arbrofol – efallai na fydd rhai pethau'n gweithio, ac mae hynny'n iawn os ydych chi'n dysgu ohono.

Asesiad cymesur

Gwerthusiad sy'n cyfateb i faint a chymhlethdod eich prosiect. Ni ddylai cynllun peilot £50,000 fod angen gwerthusiad allanol o £10,000 – gallai monitro syml, ymarferol fod yn ddigon. Dylai'r ymdrech rydych chi'n ei rhoi mewn i werthuso fod yn gymesur â'r hyn y gallwch chi ei ddysgu a'r risgiau dan sylw.

Cyrhaeddiad

Faint o bobl mae eich prosiect yn gweithio gyda nhw neu'n effeithio arnynt. Weithiau'n cael ei alw'n "graddfa". Er enghraifft: "Fe wnaethom ni gyrraedd 200 o weithwyr iechyd proffesiynol ar draws 8 ymddiriedolaeth y GIG."

Cronfeydd cyfyngedig

Arian y gellir ei ddefnyddio ar gyfer diben penodol yn unig. Mae grantiau fel arfer yn cael eu cyfyngu – ni allwch wario grant gofal iechyd ar drwsio adeiladau. Rhaid i chi gadw cronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig ar wahân yn eich cyfrifon.

Cyllid ôl-weithredol

Talu am bethau sydd eisoes wedi digwydd. Dydi bron pob cyllidwyr (gan gynnwys y rhaglen hon) ddim yn gwneud hyn – maen nhw'n ariannu costau'r dyfodol yn unig. Ni allwch hawlio costau paratol cais neu weithgareddau rydych chi eisoes wedi'u cyflwyno.

Mentora o chwith

Ffordd o ddysgu lle mae pobl gyda phrofiad byw - megis cleifion, gofalwyr, neu aelodau o'r gymuned - yn rhannu'r hyn maen nhw'n ei wybod gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt. Yn lle hyfforddiant traddodiadol o'r brig i'r gwaelod, mae mentora o chwith yn caniatáu i arbenigwyr cymunedol weithredu fel athrawon. Mae'n helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall rhwystrau, anghenion diwylliannol, a gwir brofiadau'r bobl maen nhw'n eu cefnogi. Mae'n seiliedig ar y syniad mai'r rheiny sy'n defnyddio systemau cymhleth sy'n aml yn gwybod orau beth sy'n gweithio, beth nad yw'n gweithio, a beth fyddai'n gwneud pethau'n well.

Diogelu

Amddiffyn pobl rhag niwed, cam-drin ac esgeulustod. Rhaid i'ch polisi diogelu gynnwys: sut rydych chi'n recriwtio staff/gwirfoddolwyr yn ddiogel, sut rydych chi'n cydnabod ac yn adrodd pryderon, hyfforddiant ar gyfer eich tîm, a gweithdrefnau clir. Angenrheidiol ar gyfer unrhyw waith gyda phobl bregus.

Y Gallu i Dyfu yn unol â'r Anghenion / Uwchraddio

P'un a ellir ehangu prosiect llwyddiannus i gyrraedd mwy o bobl neu leoedd. Mae cyllidwyr yn hoffi prosiectau a allai dyfu y tu hwnt i'r cynllun peilot cychwynnol os ydynt yn gweithio'n dda.

Gwneud penderfyniadau ar y cyd (SDM)

Ffyrdd o wneud penderfyniadau iechyd lle mae gweithwyr proffesiynol a chleifion yn gweithio gyda'i gilydd fel partneriaid. Mae'r gweithiwr proffesiynol yn rhannu gwybodaeth ac opsiynau, mae'r claf yn rhannu eu gwerthoedd a'u dewisiadau, a gyda'i gilydd maen nhw'n dod i benderfyniad sy'n gweithio i fywyd y person hwnnw. Weithiau yn cael ei alw'n "gwneud penderfyniadau gyda chefnogaeth"

Gwerth cymdeithasol

Manteision ehangach eich gwaith y tu hwnt i ganlyniadau prosiect uniongyrchol. Er enghraifft: gwirfoddolwyr yn ennill sgiliau, gostyngiad yng nghostau'r GIG oherwydd ymyriad cynnar, cymunedau'n teimlo'n fwy cysylltiedig. Mae Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 yn gofyn i gyrff cyhoeddus ystyried gwerth cymdeithasol wrth gomisiynu.

Gwasanaethau statudol / Sector statudol

Gwasanaethau mae'n rhaid eu darparu gan gyfraith – fel arfer gan lywodraeth, y GIG, neu awdurdodau lleol. Mae "cyllid statudol" yn golygu arian cyhoeddus. Ni fydd y rhaglen hon yn disodli costau y dylai gwasanaethau statudol eu talu o'u cyllidebau eu hunain.

Newid systemig

Newid y system, nid dim ond helpu unigolion mewn system sydd wedi torri. Er enghraifft: mae hyfforddi 100 nyrs yn dda, ond mae newid sut mae hyfforddiant nyrsys i gyd yn cynnwys cymhwysedd diwylliannol yn newid systemig. Mae'n ymwneud â newid strwythurau, polisïau, diwylliannau a phŵer.

Damcaniaeth Newid

Eich esboniad o sut a pham y bydd eich prosiect yn arwain at newid. Mae'n dangos: y problem rydych chi'n ei hwynebu, beth rydych chi'n mynd i'w wneud amdani, beth rydych chi'n disgwyl i newid o ganlyniad, eich tybiaethau, a'ch tystiolaeth ynghylch pam y dylai'r dull hwn weithio.

Cronfeydd anghyfyngedig

Gweler "Cyllid Craidd."

Gwerth am arian

Sicrhau bod canlyniadau eich prosiect werth y costau. Nid yw'n ymwneud â dewis yr opsiwn rhataf – gall prosiect sy'n costio mwy dal gynnig gwerth gwell os yw'n sicrhau effaith fwy neu'n cyrraedd mwy o bobl. Fel arfer mae cyllidwyr yn ystyried a yw'r costau'n rhesymol (economi), a yw adnoddau'n cael eu defnyddio'n dda (effeithlonrwydd), a p'un a yw canlyniadau'r prosiect yn cael eu cyflawni (effeithiolrwydd).

Sector VCFSE

Sector Gwirfoddol, Cymunedol, Crefyddol a Mentrau Cymdeithasol Y term cyfannol ar gyfer elusennau, grwpiau cymunedol, sefydliadau ffydd a mentrau cymdeithasol (yn hytrach na'r sector cyhoeddus neu fusnesau preifat).